**Nodyn cyfarfod: Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi, 28.01.20**
**12:30-13:30, Tŷ Hywel**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Heather Pells - Pobl a Gwaith | Huw Thomas - DWP |
| Sara Woolatt - Canolfan Cydweithredol Cymru | Susan Lloyd Selby - Ymddiriedolaeth Trussell |
| Gill Peace - WCIA | Carol Wardman - Yr Eglwys yng Nghymru |
| Christina Powdrill – CLlLC | Cheryl Martin - Plant yng Nghymru |
| Steffan Evan - Sefydliad Bevan | Sarah Thomas - Sefydliad y Merched |
| Sarah Germain - Fareshare | Lizzie Swaffield - Ymgynghorydd |
| Sarah Way - SRDC | Hilary Watson - WEN |
| Ioan Bellin - Swyddfa Helen Mary Jones | Emma Holmes - GIG Cymru |
| Mark Lang - Prifysgol Caerdydd | Dr Simon Hoffman - Prifysgol Abertawe |
| Claire Cunliffe - Oxfam Cymru | John Griffiths - Aelod Cynulliad (Cadeirydd) |
| Julie James – y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol | Maureen Howells – Llywodraeth Cymru |

**Ymddiheuriadau**
Jen Daffin - PAA
Kerry Moore – Prifysgol Caerdydd
Sarah Germain – Fareshare
Dawn Bowden AC

1. Croeso a chyflwyniad

Croesawodd John Griffiths yr aelodau i'r cyfarfod a rhoddodd amlinelliad o ddiben y cyfarfod.

2. Trafodaeth ar y daflen ffeithiau gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Croesawodd John Griffiths y Gweinidog i'r cyfarfod a gofynnodd am ei barn ar y mentrau gwrthdlodi sy'n cael eu cynnal yng Nghymru ar hyn o bryd. Mynegodd y Gweinidog y farn na fyddai modd diwallu anghenion neu ddymuniadau pawb mewn un ddogfen. Roedd y Gweinidog yn deall y rhwystredigaethau ynghylch diffyg Gweinidog Trechu Tlodi ond cydnabu, gan fod tlodi yn gyfrifoldeb i bawb, nad oes ateb na datrysiad taclus i hyn. Cyhoeddodd y Gweinidog y byddai archwiliad o raglenni trechu tlodi yn cael ei gynnal yn ystod y misoedd nesaf a fyddai'n galluogi pobl i weld penawdau'r gyllideb a neilltuwyd i fynd i'r afael â mentrau trechu tlodi a chroesawodd farn yr aelodau yn ystod y broses hon. Cydnabu'r Gweinidog yr angen am ddadansoddiad gonest o effeithiolrwydd rhaglenni. Dywedodd Maureen Howells y bydd galwad ysgrifenedig am dystiolaeth ac y byddai sesiynau tystiolaeth yn cael eu cynnal ledled Cymru yn ystod dechrau mis Chwefror gyda'r nod o roi argymhellion i'r Cabinet ym mis Ebrill. Y bwriad yw cadw'r broses hon mor agored â phosibl.

Dywedodd Mark Lang fod bwlch mawr yn parhau mewn perthynas â llywodraethu cydgysylltiedig ynghylch dileu tlodi a'r angen am ddull gweithredu cyson. Argymhellodd Mark y dylid sefydlu Pwyllgor Cabinet yn canolbwyntio ar Ddileu Tlodi i'w gadeirio gan un Gweinidog sydd â'r gallu i dynnu pobl a themâu at ei gilydd. Cytunodd y Gweinidog y dylid cael profiad mwy cydgysylltiedig ond ei bod yn anodd cyflawni hyn yn ymarferol ac mae'n cymryd amser hir i symud llong y llywodraeth.

Amlygodd Claire Cunliffe y rhesymau pam fod y grŵp wedi bod yn galw am strategaeth draws-lywodraethol a gofynnodd a fyddai'r archwiliad yn canolbwyntio ar bob menter trechu tlodi heblaw plant a phobl ifanc. Ymatebodd y Gweinidog y byddai'r archwiliad yn cwmpasu'r holl fentrau gwrth-dlodi. Mynegodd y Gweinidog ei rhwystredigaeth gyda'r prosesau gwerthuso presennol lle nad yw adroddiadau'n dylanwadu ar pa un a yw rhaglen yn parhau ac eto'n costio hyd at 10% o'r costau rhaglennu. Nod yr archwiliad yw dangos llinell sylfaen o ble'r ydym a nodi'r ffordd y mae'r meini prawf trothwy yn symud yn dibynnu ar y lleoliad ledled Cymru. Dywedodd y Gweinidog yr hoffai gymorth yr aelodau i greu system sydd wirioneddol yn gweithio a lle mae darpariaeth yn cael ei chydlynu ledled Cymru.

Nododd Susan Lloyd Selby fod yna lawer o weithgaredd yn cael ei wneud ar hyn o bryd nad yw'n cael yr effaith a ddymuna a soniodd mor bwysig oedd cydnabod yr effaith o ddatganoli budd-daliadau. Dywedodd y Gweinidog fod yna rai 'llinellau coch' nad oedd hi'n fodlon eu croesi ac roedd hi’n credu bod datganoli budd-daliadau yn ‘afal sur’ oherwydd ni fyddai’n denu’r arian sy'n ofynnol i sicrhau ei lwyddiant. Cyfeiriodd y Gweinidog at yr heriau sy'n gysylltiedig â'r frwydr bresennol gyda llywodraeth y DU ynghylch y Lwfans Tai.

Tynnodd John Griffiths sylw at y manteision o gyflwyno hyblygrwydd i’r broses o weinyddu budd-daliadau fel taliadau rhanedig ac ati. Dywedodd Maureen Howells fod y ffordd y mae Hyfforddwyr Gwaith y Canolfannau Gwaith yn gweithio gyda hawlwyr hefyd yn bwysig. Soniodd Claire Cunliffe am lwyddiant rhaglen Cytundeb Lefel Gwasanaeth Oxfam gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gweithio i sicrhau bod Hyfforddwyr yn edrych ar fywyd person yn gyfannol.

Croesawodd y Gweinidog farn yr aelodau am atebion ymarferol a mewnbwn i'r archwiliad.

GWEITHREDU: Claire Cunliffe i gysylltu â Maureen Howells i ofyn am eglurder ar sut y gall aelodau fwydo i'r archwiliad.

3. Cyflwyno Welsh Economic Doughnut Report 2020 gan Lizzie Swaffield

Cyflwynodd Lizzie Swaffield gyd-destun a chanfyddiadau’r Welsh Economic Doughnut Report diweddaraf ynghyd â'r tair galwad i weithredu y mae'r glymblaid gwrth-dlodi yn eu cynnig cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021. Nid yw'r adroddiad wedi'i gyfieithu a'i ddylunio eto ond bydd yn barod mewn pryd i'w lansio yng Nghynhadledd Wanwyn y Pleidiau.

GWEITHREDU: Claire Cunliffe i gylchredeg sleidiau i aelodau a'r adroddiad ar ôl iddo gael ei gyfieithu a'i ddylunio.

4. Y ffocws ar gyfer y cyfarfod nesaf

Cafwyd trafodaeth am ffocws y cyfarfod nesaf a chytunwyd y dylai'r archwiliad gwrth-dlodi fod yn ffocws oherwydd yn ôl yr amserlenni a amlinellwyd gan Maureen Howells dylai fod wedi’i gwblhau erbyn hynny.

Tynnodd yr aelodau sylw at bwysigrwydd rôl gydlynu o fewn y llywodraeth mewn perthynas â threchu tlodi, yn benodol creu Cabinet Trechu Tlodi gyda Chadeirydd penodedig. Nodwyd hefyd bod gwallau yn y daflen ffeithiau gyfredol gan y Prif Weinidog y mae angen eu cywiro.

GWEITHREDU: Llythyr i'w ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am eglurder ar yr archwiliad, i godi'r ffaith bod gwallau yn y daflen ffeithiau, i ofyn pa ddulliau sydd ar waith i sicrhau bod pob Gweinidog yn ymwybodol o drechu tlodi a beth yw’r cynlluniau ar gyfer y rhaglenni hynny sy'n cael cyllid yr UE ar hyn o bryd.